**Vaughan Gething AC/AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: VG/00169/20

Aelodau Cynulliad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

26 Mawrth 2020

Annwyl Gydweithwyr,

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am y cynnydd o ran cynllunio paratoadau ar gyfer COVID-19, ac ymateb iddo. Fe wyddoch ein bod wedi symud o'r cam 'cyfyngu' i'r cam 'oedi' erbyn hyn.

Rwy'n parhau i wneud penderfyniadau ar amryw o faterion wrth iddynt godi, a byddwch yn gwerthfawrogi bod cyflymder y datblygiadau hyn yn eithriadol. Ein prif flaenoriaeth yw sicrhau ein bod yn parhau i ddiogelu grwpiau agored i niwed a sicrhau eu bod yn cadw yn iach; blaenoriaethu diogelwch a lles staff i sicrhau parodrwydd, a chreu cadernid yn y GIG ac yn y system gofal cymdeithasol.

Rwyf eisoes wedi amlinellu fframwaith o gamau gweithredu y gall darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol lleol ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau. Diben y camau hyn oedd galluogi adleoli gwasanaethau a gwelyau a sicrhau bod staff yn cael eu hadleoli a'u hailhyfforddi ar gyfer meysydd blaenoriaeth. Bydd y camau yn parhau i fod ar waith ac yn hwyluso a chefnogi'r ymateb iechyd a gofal cymdeithasol parhaus.

Fel y dywedais o'r blaen, rwy'n parhau i gael cyngor gan gydweithwyr proffesiynol, gan gynnwys Prif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr Meddygol y GIG i ddod i benderfyniadau ac i sicrhau y gellir gwneud ein paratoadau mewn modd cyson, wedi'i gynllunio.

Mae'r camau gweithredu a ganlyn yn dangos y cynnydd sy'n cael ei wneud a'r sefyllfa bresennol heddiw:

Mae apwyntiadau cleifion allanol nad ydynt yn rhai brys wedi'u lleihau a bydd apwyntiadau brys yn cael eu blaenoriaethu:

- Bydd ymgyngoriadau fideo ar gael os oes angen
- Mae staff ac adnoddau yn parhau i gael eu hadleoli

Mae derbyniadau llawfeddygol a thriniaethau nad ydynt yn rhai brys wedi'u lleihau (gan sicrhau mynediad ar gyfer llawdriniaethau brys neu mewn argyfwng)

- Mae staff ac adnoddau yn parhau i gael eu hadleoli

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Mae cynlluniau eisoes ar waith gan fyrddau iechyd i ddyblu eu capasiti, yn fras
- Mae capasiti gofal critigol ychwanegol yn cael ei ganfod
- Mae'r gwaith o gaffael peiriannau anadlu ar y gweill gan Gymru a'r DU
- Ar 21 Mawrth, cyhoeddais y byddai'r gwaith ar Ysbyty Athrofaol y Grange yn cyflymu i hwyluso agor 350 o welyau a 150 o leoedd corffdy yn gynnar, erbyn diwedd mis Ebrill
- Rydym yn edrych ar ofynion cyfalaf pellach ar draws safleoedd y byrddau iechyd

Rydym wedi blaenoriaethu defnyddio'r Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys (NEPTS) i ganolbwyntio ar ryddhau cleifion o'r ysbyty ac ymateb ambiwlansiau brys

- Mae Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn blaenoriaethu defnyddio NEPTS i ryddhau cleifion o'r ysbyty a gwneud y mwyaf o'r ymateb ambiwlansiau brys i gleifion yn y gymuned

Mae'r GIG wedi cyflymu rhyddhau cleifion agored i niwed o ysbytai cymunedol ac acíwt, ac i gefnogi hyn mae canllawiau yn cael eu datblygu gan GIG Cymru fel blaenoriaeth i ryddhau gwelyau acíwt a sicrhau bod cleifion yn cael gofal neu'n cael aros yn y lleoliad mwyaf addas.

Hefyd, mae trefniadau llwybr carlam ar waith ar gyfer lleoli pobl mewn cartrefi gofal, gan atal y weithdrefn bresennol sy'n rhoi'r hawl i bobl ddewis eu cartref gofal eu hunain.

I gefnogi capasiti yn lleol, mae trefniadau contractau a monitro ar gyfer meddygon teulu ac ymarferwyr gofal sylfaenol wedi'u hymlacio. Anfonwyd llythyrau at ymarferwyr gofal sylfaenol yn ymwneud â newidiadau dros dro i gontractau gofal sylfaenol ar 17 Mawrth. Fe fyddwch yn ymwybodol hefyd fy mod wedi cyhoeddi newidiadau i gael mynediad at fferyllfeydd cymunedol i gefnogi llif gwaith a pharatoi presgripsiynau.

Rwyf hefyd wedi gwneud y penderfyniad i atal gwasanaethau brys y GIG a chymorth gwirfoddolwyr iechyd ar gyfer digwyddiadau a chynulliadau torfol a chafodd hyn ei gadarnhau yn fy natganiad ysgrifenedig ar 13 Mawrth.

Rydym yn parhau i symud trefniadau parhad busnes ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae cynlluniau a threfniadau parhad busnes ar waith ar draws y GIG a gofal cymdeithasol, a byddant yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Mae llwybrau gofal iechyd newydd yn cael eu rhoi ar waith yn sgil COVID-19.  Cyhoeddwyd llwybrau y maes gofal eilaidd acíwt ar 17 Mawrth, a llwybrau y maes gofal sylfaenol ar 23 Mawrth.

Rwy'n ymwybodol o'r pryderon a fynegwyd ynghylch y gwaith profi, ac rwy'n awyddus i sicrhau bod eglurder yn cael ei roi ynghylch y profion ar gyfer gweithwyr yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol. Byddaf yn parhau i roi eglurder ar y sefyllfa yn gyson, er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bawb. Cafodd y trefniadau profi eu hymestyn dros y penwythnos, ac rydym yn parhau i edrych ar bob opsiwn arall a hynny ar frys, gan roi ystyriaeth i'r cyfyngiadau capasiti.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod staff iechyd a gofal cymdeithasol yn gallu cael mynediad at Gyfarpar Diogelu Personol os oes angen, gan sicrhau eu bod yn deall pryd y dylid ei ddefnyddio. Hoffwn bwysleisio bod trefniadau cymorth yn eu lle ar y cyd rhwng Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd, er mwyn galluogi pobl i fael mynediad ar frys at

Gyfarpar Diogelu Personol pan fod angen. Bydd rhagor o eglurder yn cael ei ddarparu'n ddi-oed ar y canllawiau mewn perthynas â'r Cyfarpar hwnnw.

Rydym yn gweithio ar draws sectorau yn y cyfnod heriol hwn, ac yn cynnal trafodaethau i gomisiynu offer, staff a chapasiti mewn gofal iechyd preifat i gefnogi'r ymdrech genedlaethol.

Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi newid eu ffocws er mwyn rhoi blaenoriaeth i baratoi'r sector iechyd a gofal cymdeithasol, hefyd y Fforymau Lleol Cymru Gydnerth, a bydd hyn yn parhau am y dyfodol rhagweladwy. Rydym hefyd wedi gweld apwyntiadau deintyddol ac optometreg yn lleihau.

Ynghanol yr holl ddatblygiadau arwyddocaol hyn, mae gwaith wedi cael ei wneud i gynyddu capasiti'r gweithlu a sicrhau bod staff ac adnoddau yn cael eu defnyddio yn y modd mwyaf effeithiol. Mae hyn yn cynnwys cofrestr frys ar gyfer nyrsys a bydwragedd sy'n dychwelyd i weithio, ynghyd â chanllawiau ategol i gynyddu capasiti ymhellach ar draws y system.

Rydym yn ysgrifennu at bobl sy'n agored i newid ac sydd â chyflyrau iechyd sy'n golygu eu bod yn fwy tebygol o deimlo'n anhwylus gyda'r coronafeirws. Rydym yn gofyn i'r bobl hyn gymryd camau llymach i ddiogelu eu hunain rhag y feirws. Rydym yn gweithio gyda meddygon teulu, Awdurdodau Lleol a'r sector gwirfoddol i sicrhau bod y bobl hyn yn gallu cael mynediad at yr holl wasanaethau sydd eu hangen arnynt i'w cefnogi yn ystod yr wythnosau anodd sydd o'n blaenau.

Mae'r camau hyn yn rhai eang ac angenrheidiol, sy'n hanfodol os ydym am lwyddo i drechu COVID-19. Mae ein GIG a'n system Gofal Cymdeithasol yn gweithio mor galed â phosibl i ofalu am y bobl hynny sydd wedi cael eu heffeithio gan y coronafeirws. Mae ein staff yn y rheng flaen yn gwneud gwaith ardderchog, ac rwy'n diolch iddynt am eu gwaith caled, dyfalbarhad a'u cadernid.

Mae'r mesurau llymach a gyhoeddwyd gennym ynghylch cadw pellter cymdeithasol yn hollbwysig er mwyn helpu'r GIG i oresgyn yr her sydd o'n blaenau. Felly rwy'n annog pawb i lynu'n llym at y cyngor am gadw pellter cymdeithasol ac hunanynysu, ac aros gartref.

Yn gywir,

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AC/AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services